COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS FAWRTH, 27AIN GORFFENNAF 2021 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Cadeirydd: Y Cynghorydd C. Brockley (gweler Cofnod 95/21)
Cynghorwyr Mrs M. Jones (Maer), C. Matthews, J. Pearson, T. Pearson (Dirprwy Faer), S. Price, S. Ryder, M. Tasker, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol
.

HEFYD YN BRESENNOL: Aelod o'r Cyhoedd, Mrs Joy Baker

95/21 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Oherwydd anhwylder y Cadeirydd ac am nad oedd yr Is-Gadeirydd yn bresennol, cafodd y Cynghorydd Brockley ei enwebu i fod yn Gadeirydd ac fe groesawodd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Clerc, Mrs T. Earley a'r Cynghorwyr Mrs Glenys Baker ag R. Owen

96/21 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

97/21 Cofnodion:
Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf 2021 yn adroddiad cywir.

98/21 Anghysondebau Cynllunio:

Am fod Mrs J. Baker, aelod o'r cyhoedd, yn bresennol, cytunodd y Cadeirydd i ddod a'r eitem hon ymlaen. Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol negeseuon ebost oddi wrth aelod o'r cyhoedd a hefyd gwybodaeth am ddau benderfyniad a wnaed gan yr Adran Cynllunio. Dywedodd y Cynghorydd Ryder bod Mrs Baker yn bryderus am anghysondebau ymddangosol yn y polisïau cynllunio. Eglurodd y Cadeirydd mai fel corff ymgynghori mae'r Cyngor Tref yn gweithredu ac mai Adran Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol. Mae'r Cyngor Tref yn edrych ar bob cais ac yn anfon sylwadau / arsylliadau at yr Adran Cynllunio. Dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor yn gwneud sylwadau cyson a bydd yr Adran Cynllunio weithiau yn eu hystyried. Rhoddodd y Cadeirydd enghreifftiau o'r adegau pan gymerwyd sylw o'n sylwadau ag i bryderon y cyhoedd cael eu diogelu. Dywedodd Mrs Baker y dylid gadael i drigolion wybod am newidiadau yn ogystal â'r cais gwreiddiol. Fe nodwyd y sylwadau hyn gan y Cadeirydd ond dywedodd nad oeddynt o fewn ein cylch gwaith.

Diolchwyd i Mrs Baker am fod yn bresennol, a gadawodd y cyfarfod.

99/21 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a) **Cofnod 56/21 - Llochesi Fysus:** Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol ateb ebost gan GBS Conwy a gofynnodd a fyddai gan yr Aelodau diddordeb i fynd i gyfarfod gyda ChBS Conwy i drafod datblygu'r sustem sgorio, fel y gallem sicrhau bod unrhyw lochesi newydd yn cael blaenoriaeth yn ôl yr angen. ***Penderfynwyd enwebu'r Cynghorwyr Colin Matthews a Sarah Ryder i fynychu unrhyw gyfarfod rhwng y Clerc a ChBS Conwy i drafod y datblygiad o sustem sgorio.***

b) **Cofnod 80/21(b) - Mannau Croesawu:** Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol drafft terfynol o gynllun yr arwydd, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau. Dywedodd y Clerc Cynorthwyol wrth yr Aelodau byddant yn derbyn manylion am y lleoliadau terfynol trwy ebost ar y diwrnod canlynol.

100/21 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

a) **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y rheoliad traffig dros dro ar gyfer Ffordd Albert, Hen Golwyn ar 27/7/2021 (Gwaith Dŵr Cymru) er gwybodaeth, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

b) **Cynllun Chwarae Allan 2021:** Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol yr amserlen ar gyfer y sesiynau chwarae allan er gwybodaeth, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau

101/21 <u>Fferm Wynt Awel y Môr:</u>

(a) Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol nodyn briffio, ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau.

(b) Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol Taflen Newyddion Gorffennaf, ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau

(c) Cyflwynodd y Cynghorydd C. Brockley adborth o'r Cyflwyniad i Randeiliaid a fynychwyd ganddo yn ddiweddar gyda'r Cynghorydd R. Owen. Dywedodd Cynghorydd Brockley bod y safle i gael ei leihau i 80% yn dilyn ymgynghoriad. Daeth y mwyafrif o'r gwrthwynebiadau o ardal Ynys Môn. Fe gynhelir ymgynghoriad lleol o fewn ychydig wythnosau. Holodd Cynghorydd Brockley am uchder y tyrbinau arfaethedig a fyddant 3 gwaith yn uwch na'r rhai presennol, a 4 gwaith yn fwy pwerus. Dywedwyd y gobeithir byddant, rhwng y safle hwn a safleoedd eraill, yn gallu cyflenwi Cymru gyfan erbyn 2030.

102/21 <u>Caffis Trwsio:</u>

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol ebost ynglŷn â chaffis trwsio a gofynnodd i'r Aelodau ystyried unrhyw safleoedd posibl yn ein hardal.

Penderfynwyd dweud wrth y trefnydd i roi ei manylion cyswllt i Eglwys Antioch oherwydd mae ganddynt eiddo ym Mae Colwyn, a hefyd i M-Sport (menter ddigidol / creadigol) sy'n gwneud prosiect tebyg yn yr ardal ac efallai nad yw'r trefnydd yn ymwybodol ohonynt.

103/21 <u>Llyfrgell Bae Colwyn:</u>

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol ebost oedi wrth y Cynghorydd S. Ryder ag ymateb CBS Conwy, ynglŷn â'r llyfrgell ym Mae Colwyn. Gofynnwyd i'r Aelodau

ystyried a ddylai'r adeilad cael ei restru. Eglurodd y Cynghorydd Ryder bod aelod o'r cyhoedd wedi gofyn i'r adeilad cael ei restru am iddynt fod o'r farn y dylid ei ddiogelu. Cyflwynodd Cynghorydd Ryder cynnig bod y Cyngor Tref yn cefnogi rhoi'r adeilad ar restr, ac fe gefnogwyd hyn gan yr Aelodau. Fodd bynnag, bydd angen gwneud gwaith ymchwil i ddarganfod pa mor gyfyngedig byddai gwneud hyn, oherwydd mae angen gwneud gwaith i'r adeilad..

Penderfynwyd gohirio'r eitem hon hyd nes i'r Cynghorydd Ryder gwneud y gwaith ymchwil ar adeiladau rhestredig, y cyfyngiadau a sut byddai rhestru'r adeilad ym Mae Colwyn yn effeithio ar y Llyfrgell.

104/21 <u>Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru:</u>

Am fod y Cynghorydd Baker yn absennol o'r cyfarfod hwn, dywedodd y Clerc Cynorthwyol wrth y Pwyllgor y byddai'n anfon unrhyw adroddiad at yr Aelodau.

105/21 <u>Cynllunio</u>:

a) Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Rhestr 'A' sydd gyda hwn.

b) Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy am y cyfnod o 28/6/2021 hyd at 11/7/2021 ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

c) Cymorth Cynllunio Cymru / Un Llais Cymru:

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol adroddiad gan y Cynghorwyr Baker a J. Pearson. Roedd y Cynghorydd J. Pearson eisoes wedi rhoi adroddiad ar lafar am hwn i gyfarfod y Cyngor ar 19eg Gorffennaf 2021.

ch) Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno Cais (YCCC):

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol YCCC oddi wrth Brenig ynglŷn â hen safle Mary Bamber. Roedd yr Aelodau yn bryderus am golli mwy o'r Ardal Cadwraeth.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am fod y datblygiad arfaethedig o fewn Ardal Cadwraeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40 pm …… Cadeirydd

CYNGOR TREF BAE COLWYN BAY TOWN COUNCIL
CEISIADAU CYNLLUNIO/PLANNING APPLICATIONS
27/07/2021

Cyfeirnod/ Reference	LEFEL/ LEVEL	CAIS/APPLICATION
0/48167	D	Cais cynllunio hybrid i ddatblygu'r dafle fesul cam, gan gynnwys: 1) Cais cynllunio llawn i godi 54 o anheddau preswyl, creu mynedfa newydd i gerbydau, creu mynediad mewnol, creu man agored cyhoeddus, creu cyswllt ffurfiol a llwrbr troed, gyda gwaith draenio, tirlunio a pharcio cysylltiedig. 2) Cais cynllunio amlinellol I godi 19 o anheddau, creu ffordd fynediad fewnol a gwaith cysylltiedig. S**afle:** Land adjacent to Bryn Rhodyn, Dolwen Road, Old Colwyn, LL29 8UQ **Ymgeisydd**: Mr Max Jones **Mae gan y Cyngor Tref y pryderon a ganlyn:** **1. Tagfa traffig ar Gylchfan y Marine - fe baratowyd adroddiad traffig yn Rhagfyr 2020 pan oedd ysgolion a cholegau ar gau a phobl yn cael eu cynghori i weithio o adref lle'r oedd hyn yn bosibl. Mae'r Cyngor Tref yn gofyn am adroddiad pellach dan amodau mwy arferol** **2. Nid yw'r datblygiad arfaethedig hwn yn cydymffurfio a Chynllun Teithio Gweithredol Conwy ac yn rhy bell o amwynderau lleol. Does dim safleoedd bysiau ger y safle datblygu.** **3. A yw'r isadeiledd yn bodoli ar gyfer datblygiad o'r fath: meddygfeydd , digon o le yn yr ysgolion?** **4. Yn y gorffennol cafwyd materion yn ymwneud a llifogydd a materion yn ymwneud a chyflenwadau dŵr yn yr ardal hon. Mae yna broblem barhaus gyda draenio dŵr arwyneb** **Mae'r Datblygiad y tu allan i ardal anheddiad y Cynllun Datblygu Lleol ac ni chafodd ei glustnodi ar gyfer codi tai. Rydym felly yn gofyn i'r cais hwn cael ei wrthod.** Hybrid planning application for phased development of the site comprising 1) Full planning application for the erection of 54 residential dwellings, creation of new vehicular access, creation of internal access, creation of public open space, creation of formal footpath link, with associated drainage works, landscaping and parking 2) Outline planning application for the erection of 19 dwellings, creation of internal access road and associated works. **Location:** Land adjacent to Bryn Rhodyn, Dolwen Road, Old Colwyn, LL29 8UQ. **Applicant**: Mr Max Jones **Objections** **The Town Council has the following concerns:** **1. Traffic congestion at Marine Roundabout – a traffic report was undertaken in December 2020 when schools and colleges were closed and people were being advised to work from home where possible. The Town Council requests a further report is undertaken under more normal circumstances.** **2. This proposed development does not comply with Conwy's Active Travel Plan and is too far from local amenities. There are no bus stops near to the development site.** **3. Is the infrastructure in place to accommodate such a development: GP's , sufficient school places etc?** **4. In the past there have been flooding issues and water supply issues**

Cyfeirnod/ Reference	LEFEL/ LEVEL	CAIS/APPLICATION
		in this area. There is a persistent problem with surface water drainage **The Development is outside the settlement area of the LDP and was not allocated for housing. We therefore request that this application be declined.**
0/48638	D	Cynnig i Addasu garej a gosod Estyniad yn y cefn **Safle:** Clian, 72, Bryn Cadno, Upper Colwyn Bay, Colwyn Bay, LL29 6DW **Ymgeisydd**: Mr & Mrs Kay **Dim Gwrthwynebiad** Proposed garage conversion & rear extension. **Location**: Clian, 72, Bryn Cadno, Upper Colwyn Bay, Colwyn Bay, LL29 6DW **Applicant**: Mr & Mrs Kay **No Objection**
0/48640	D	Cais i osod 3 arwydd a llythrennau ar ochr y de a'r Gorllewin, gosod plac gwybodaeth, codi polyn baner 6.0 metr/baner ac 1 arwydd ar bolyn 2.8 metr o uchder, [cynigir opsiynau 'A' a 'B' fe dewis amgen] ynghyd a gosod 3 sbotoleuadau wedi gosod ar y llawr i oleuo ochr y de a'r Gorllewin a'r arwyddion. **Safle:** 44, Conway Road, Colwyn Bay, LL29 7HT **Ymgeisydd:** Chris Spillane **Dim Gwrthwynebiad** Proposed installation of 3 number applied signs to the south and west elevations, install an information plaque, erect a 6.0 metre high flag pole/flag and 1 number 2.8 metre high pole sign [alternative positioning options 'A' and 'B' proposed] together with the installation of 3 number ground mounted spotlights to light the south and west elevations and applied letter signs. **Location:** 44, Conway Road, Colwyn Bay, LL29 7HT **Applicant:** Chris Spillane **No Objection**
0/48644	D	Gosod dihangfa dan allanol a ffenestr llawr cyntaf ar ochr yr annedd **Safle:** Le Sport Health & Fitness Club, Colwyn Avenue, Rhos on Sea, LL28 4RB **Ymgeisydd:** Whitlock **Dim Gwrthwynebiad** Proposed external fire escape and first floor window to side elevation **Location:** Le Sport Health & Fitness Club, Colwyn Avenue, Rhos on Sea, LL28 4RB **Applicant:** Whitlock **No Objection**
0/48649	D	Addasiadau i'r garej **Safle:** 49, Brompton Avenue, Rhos on Sea, LL28 4TF **Ymgeisydd**: Peter Lewis **Dim Gwrthwynebiad** Alterations to the garage **Location:** 49, Brompton Avenue, Rhos on Sea, LL28 4TF **Applicant**: Peter Lewis **No Objection**
0/48652	D	Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer y defnydd presennol fel dosbarth defnydd C2 Sefydliad Preswyl **Safle:** The Grange, 1, Oak Drive, Colwyn Bay, LL29 7BS **Ymgeisydd:** Mr Richard Smith **Dim Gwrthwynebiad**

Cyfeirnod/ Reference	LEFEL/ LEVEL	CAIS/APPLICATION
		Certificate of lawfulness for the existing use as use class C2 Residential institution **Location:** The Grange, 1, Oak Drive, Colwyn Bay, LL29 7BS **Applicant:** Mr Richard Smith **No Objection**
0/48661	D	Dymchwel garej/gweithdy presennol ac adeiladu garej/gweithdy dwbl newydd **Safle:** 480, Abergele Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, Conwy, LL29 9LE **Ymgeisydd:** Mr Brian Kerens **Dim Gwrthwynebiad** Demolition of existing garage/workshop and construction of new double garage/workshop **Location:** 480, Abergele Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, Conwy, LL29 9LE **Applicant:** Mr Brian Kerens **No Objection**
0/48663	PC	Adeiladu cyfleuster gofal palnt cyfrwng Cymraeg dau dosbarth newydd gan gynnwys gofod cymunedol. Bydd y cyfleuster yn galluogi I ddau grwp gofal plant uno mewn cyfleuster pwrpasol **Safle:** Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, LL29 7ST **Ymgeisydd:** Wyn Jones **Dim Gwrthwynebiad** Construction of two new classrooms welsh medium childcare facility including community space. The facility will enable the amalgamation of two child care groups in a purpose built facility **Location:** Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, LL29 7ST **Applicant:** Wyn Jones **No Objection**
0/48668	D	Addasu Blaen siop **Safle:** 19, Abergele Road, Colwyn Bay, LL29 7RS **Ymgeisydd:** Mr Bilgin Odemis **Dim Gwrthwynebiad** Alterations to shop front **Location:** 19, Abergele Road, Colwyn Bay, LL29 7RS **Applicant:** Mr Bilgin Odemis **No Objection**
0/48672	D	Cais ol-weithredol I gadw balconi yng nghefn y dreif presennol **Safle:** 19,Heenan Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 9DP **Ymgeisydd:** Mr John McLinden **Dim Gwrthwynebiad** Retrospective application for retention of existing balcony to rear to existing driveway **Location:** 19, Heenan Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 9DP **Applicant:** Mr John McLinden **No Objection**
0/48675		Ystafell ardd/hobiau arfaethedig **Safle:** 13, Glyn Avenue, Colwyn Bay, LL29 8RB **Ymgeisydd:** Mr Jonathan Lees **Dim Gwrthwynebiad** Proposed Garden/Hobby Room

Cyfeirnod/ Reference	LEFEL/ LEVEL	CAIS/APPLICATION
		Location: 13, Glyn Avenue, Colwyn Bay, LL29 8RB **Applicant:** Mr Jonathan Lees **No Objection**
0/48689		Cais am estyniad unllawr ar yr ochr ac addasiadau l'r portsh **Safle:** 15, Ffordd Triban, Upper Colwyn Bay,Colwyn Bay, LL28 5YY **Ymgeisydd:** Mr G Hickman **Dim Gwrthwynebiad** Proposed side storey extension and alterations to porch **Location:** 15, Ffordd Triban, Upper Colwyn Bay, Colwyn Bay, LL28 5YY **Applicant:** Mr G Hickman **No Objection**
0/48690		Newid defnydd rhan o'r adeilad o ddefnydd D2 i B1/B8 **Safle:** Pump House, off Cysgod y Bryn , Rhos on Sea, LL28 4EW **Ymgeisydd:** Mr James Duncalf **Dim Gwrthwynebiad** Change of use of part of building from D2 tp B1/B8 use **Location:** Pump House, off Cysgod y Bryn , Rhos on Sea, LL28 4EW **Applicant:** Mr James Duncalf **No Objection**